

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

Y Cynghorydd Martyn Jones

Ward: Cwm Garw

Plaid: Llafur Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar **30 Ebrill 2023**. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Cwm Garw ym mis Mai 2022. Yn y gorffennol, fi oedd yr aelod etholedig dros Betws a gafodd, oherwydd newid ffiniau etholiadol Llywodraeth Cymru, ei ymdrwytho yng Nghwm Garw.

Felly, ynghyd â dau aelod arall rydym ni'n cefnogi preswylwyr mewn saith cymuned ar draws Cwm Garw i gyd. Rydym ni'n parhau i gefnogi preswylwyr mewn amrywiaeth o faterion, o sefyllfaoedd o ddigartrefedd i anfodlonrwydd cyffredinol â gwasanaethau cyhoeddus.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel cynrychiolydd Cwm Garw, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfredol ac yn berthnasol.

Gellir dod o hyd i wybodaeth gyswllt ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

[Y Cynghorydd Martyn Jones](#)

Gweithgarwch yn yr Etholaeth

Rwyf wedi gwneud fy hun yn weladwy ac yn hygyrch i etholwyr drwy ddefnyddio cyfleusterau cyfryngau cymdeithasol, teithiau cerdded cymunedol, mynychu cyfarfodydd grŵp cymunedol rheolaidd sy'n cynnwys casglu sbwriel lleol a digwyddiadau ysgolion a chymunedol. Mae gweithgarwch etholaethol hefyd yn cynnwys aelodaeth o Gyngor Cymuned Cwm Garw a chorff Llywodraethu Ysgolion.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Yn 2014, gosodais gynllun datblygu cymunedol ar gyfer Betws a oedd â'r nod o wella cyfleusterau addysgol i blant ysgol lleol, gwell cyfleusterau ieuencid, mynediad ehangach at gysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus a oedd yn cynnwys gwell llochesi bysiau ac uwchraddio Canolfan Bywyd Betws. Ar ôl dull partneriaeth a gynhaliwyd gyda phartneriaid allweddol sy'n cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Awen, Cyngor Cymuned Cwm Garw, Clwb Merched a Bechgyn Cymru a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lleol rydym wedi gallu sicrhau buddsoddiad cyfalaf sylweddol

i'r gymuned sy'n amlwg yn yr adeiladau cymunedol newydd a'r rhai sydd wedi'u hadnewyddu yn y pentref. Mae gennym waith i'w wneud o hyd mewn perthynas â sicrhau darpariaeth ieuenctid gynaliadwy er bod hyn yn rhan o'n gweledigaeth barhaus i gyflawni cynllun cymunedol 2014.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Yn 2022 cefais fy ethol yn Faer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac ar hyn o bryd rwy'n ymgymryd â'r rôl a'r cyfrifoldeb o fod yn Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Y Cynghorydd Martyn Jones, JP

Dyddiad: 30 Mehefin 2023